cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Sut mae'ch plentyn yn ad-dalu ei fenthyciad 2016/17

Pan fydd eich plentyn yn gorffen neu'n gadael ei gwrs, bydd angen talu unrhyw fenthyciadau yn ôl - ond nid nes bydd ei incwm dros £21,000.

Faint fydd yn ei ad-dalu?

Bydd y swm fydd yn ei ad-dalu pob mis yn ddibynnol ar ei incwm ac nid faint a fenthycwyd. Bydd yn ad-dalu 9% o unrhyw incwm dros y trothwy presennol o £403 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn. Os yw ei incwm yn syrthio'n is na hyn, bydd ei ad-daliadau yn stopio'n awtomatig.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai enghreifftiau o faint fydd y symiau ad-dalu misol disgwyliedig.

Incwm pob blwyddyn cyn treth	Swm i'w ad-dalu pob mis
£21,000	£0
£24,000	£22
£27,000	£45
£30,000	£67
£33,000	£90
£36,000	£112
£40,000	£142

Bydd unrhyw fenthyciad sydd heb ei dalu yn ôl 30 mlynedd wedi i'r myfyriwr ddechrau ad-dalu yn cael ei ddileu.

Sut fydd yn ad-dalu?

Cesglir ad-daliadau trwy system dreth y Deyrnas Unedig, naill ai:

- trwy TWE, ble mae taliadau yn cael eu didynnu gan y cyflogwr yn yr un modd â Threth Incwm neu Yswiriant Gwladol; neu
- trwy'r broses hunanasesiad os yw'n hunangyflogedig.

Os yw eich plentyn yn byw neu'n gweithio dramor pan fydd yn gorffen ei gwrs, bydd angen cysylltu â ni cyn iddo adael y Deyrnas Unedig er mwyn i ni wneud trefniadau iddo ddechrau ad-dalu.

Gall eich plentyn wneud taliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg.

A oes raid iddo dalu llog?

Oes. Mae faint o log a godir yn seiliedig ar y gyfradd chwyddiant (Mynegai Prisiau Manwerthu [RPI]) a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar amgylchiadau'ch plentyn.

	Cyfradd llog
Tra'i fod yn astudio hyd at y mis Ebrill wedi gorffen neu adael y cwrs	Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) +3%
O'r mis Ebrill wedi i'r myfyriwr adael neu orffen ei gwrs	Bydd llog yn seiliedig ar ei incwm: £21,000 neu lai = RPI Rhwng £21,000 a £41,000 = RPI a hyd at 3%, yn ddibynnol ar incwm £41,000 neu fwy = RPI a 3%

Codir llog o'r diwrnod pan fyddwn yn gwneud y taliad benthyciad cyntaf nes bydd y llog wedi ei ad-dalu neu ddileu, pa bynnag un sydd gyntaf.

Am ragor o wybodaeth am ad-dalu benthyciadau myfyrwyr, ewch i **www.studentloanrepayment.co.uk**

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

ENDORSED BY HELOA

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ymarferwyr

facebook.com/SFWales

twitter.com/SF_Wales

youtube.com/SFWFILM

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government